



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

**Swyddog Gweinyddol** – mae Rhian Lewis y swyddog gweinyddol wedi derbyn swydd fel cynorthwydd dysgu yn yr ysgol. Mi fyddwn yn hysbysebu am Swyddog Gweinyddol newydd yn ystod yr wythnos. Mae'n bosib y bydd gan rieni / gwarcheidwaid ddiddordeb yn y swydd hon. Os oes gennych ddiddordeb yna cysylltwch â mi am ragor o fanylion.

**Gŵyl Chwaraeon Bl 3 a 4** – mi fydd disgyblion Bl 3 a 4 yn cerdded lan i'r Brifysgol ar fore dydd Iau, Rhagfyr 1af. Mi fydd angen dillad ac esgidiau addas. Mi fydd pawb yn dychwelyd erbyn amser cinio.

**Noddi rhaglen y Cyngerdd Nadolig** – os oes gennych ddiddordeb mewn noddi rhaglen y Gyngerdd Nadolig a gynhelir yn y Neuadd Fawr ar nos Fercher, Rhagfyr 14eg yna cysylltwch â mi cyn ddydd Llun, Rhagfyr 5ed. Gallwch gael hysbyseb fechan tua 8cm x 5cm am £50 neu hysbyseb fwy tua 8cm x 10cm am £100. Mae modd i noddwyr y noson gael i fyny at 5 tocyn am ddim a seddau cadw ar gyfer y noson. Sicciau yn daladwy i 'Cymdeithas Rhieni Ysgol Gymraeg Aberystwyth' Mi fyddwn yn defnyddio'r arian nawdd i dalu am y gost o ddefnyddio'r Neuadd Fawr

**Cyngerdd Bach y Meithrin a'r Derbyn** (ymarfer ar gyfer y Neuadd Fawr) – eleni rydym am ddarparu cyfle i'r Meithrin a'r Derbyn berfformio o flaen eu rhieni / gwarcheidwaid yn neuadd yr ysgol ar brynhawn ddydd Gwener, Rhagfyr 9fed am 2.30. Mi fyddant yn perfformio eto yn y Neuadd Fawr ar nos Fercher, Rhagfyr 14eg. Mi fydd modd i ddisgyblion y Meithrin sy'n dod i'r ysgol fel arfer yn y bore aros am ddiwrnod cyfan (mi fydd angen bocs bwyd ar gyfer cinio). Mi fydd mynediad i'r perfformiad / ymarfer yn yr ysgol yn rhad ac am ddim ond mi fydd pwyllgor y Siarter Iaith y gwerthu te / coffi a mins pei am gyfraniad rhesymol.

**Sinema'r Commodore** – mi fydd yr ysgol gyfan (**heblaw'r Meithrin**) yn ymweld â Sinema'r Commodore ar brynhawn ddydd Mawrth, Rhagfyr 20fed i weld y ffilm 'Sing 2'. **[Gofynnir yn garedig i rieni / gwarcheidwaid i gasglu'r plant o'r sinema am 3.30](#)**

**Clwb Gofal Plant ar ôl Ysgol** – hoffwn ddiolch i'r staff sydd wedi bod yn gweithio gyda'r Clwb ar ôl Ysgol ers mis Hydref. Wrth i ni agosau at ddiwedd y tymor hoffwn eich hysbysu o'r canlynol;

**Dim Clwb Gofal Plant ar ôl ysgol ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 20fed** – **[rhieni i gasglu plant o Sinema'r Commodore am 3.30](#)** (heblaw'r Meithrin)

**Dim Clwb Gofal Plant ar ôl ysgol ar ddydd Mercher, Rhagfyr 21ain** (diwrnod ola'r tymor)  
Y diwrnod olaf ar gyfer y Clwb Gofal plant eleni fydd nos Lun, Rhagfyr 19eg.

**Casgliad ar gyfer Banc Bwyd Aberystwyth (Jubilee Storehouse)** - mae'r ysgol yn awyddus i gefnogi Banc Bwyd Aberystwyth. Dros yr wythnosau nesaf mi fyddwn yn derbyn unrhyw gyfraniadau o'r rhestr isod. Rydym yn ymwybodol fod costau byw wedi codi i bawb felly peidiwch â theimlo unrhyw bwysau i gyfrannu. Mae bocs casglu tu fewn i brif fynedfa'r ysgol.

**Brecwast** - Weetabix, Uwd mewn pecynnau bach, miwsli, Coffi (jariau bach), te (mewn bagiau), siocled poeth

**Cinio/Swper** - Tuniau o gig neu lysiau mewn stiwl, chili, cyri, tatws, pys, moron, corn melys, tomatos, ffa Ffrengig, tiwna, samwn, sardîns, mecryll, cawl, ffrwythau, reis a phasta mewn bagiau bach, tuniau o gwstard a phwdin reis, llaeth soya mewn carton, bisgedi, bariau bach o siocled, losin i blant

**Nwyddau ymolchi** - Gel ymolchi, siampw, diaroglydd, brwsys dannedd, past dannedd, cewynnau - maint 4-7

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

Gwefan  
www.ysgolgymraeg.cymru



e-bost  
prif@ysgolgybraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Administrative Officer** - Rhian Lewis the Administrative Officer has accepted a position as a teaching assistant at the school. We will be advertising for a new Administrative Officer during the week. Parents / guardians may be interested in this post. If you are interested then please contact me for more details.

**Yr 3 and 4 Sports Festival** - Yr 3 and 4 pupils will be walking up to the University on Thursday morning, December 1st. Suitable clothes and footwear will be required. Everyone will return to school by lunchtime.

**Sponsoring the Programme for the Christmas Concert** - if you are interested in sponsoring the programme for the Christmas Concert which will be held in the Great Hall on Wednesday, December 14th then please contact me before Monday, December 5th. You can have a small advertisement 8cm x 5cm for £50 or a larger advertisement 8cm x 10cm for £100. Sponsors of the evening can get up to 5 free tickets and reserved seats for the performance. Cheques made payable to 'Cymdeithas Rhieni Ysgol Gymraeg Aberystwyth' We will use the sponsorship money to pay for the cost of using the Great Hall.

**Nursery and Reception Small Concert (rehearsal for the Great Hall)** – this year we will provide an opportunity for the Nursery and Reception pupils to perform in front of their parents / guardians in the school hall on Friday afternoon, December 9th at 2.30. They will perform again in the Great Hall on Wednesday night, December 14th. Nursery pupils who usually come to school in the morning will be able to stay for a whole day (morning pupils will need a lunch box). Entry to the performance / rehearsal at the school will be free of charge but the Pwyllgor Siarter Iaith will be selling tea / coffee and mince pies for a reasonable contribution.

**The Commodore Cinema** - the whole school (apart from the Nursery) will be visiting the Commodore Cinema on the afternoon of Tuesday, December 20th to see the film 'Sing 2'. **Parents / guardians are kindly asked to collect the children from the cinema at 3.30.**

**After School Childcare Club** - I would like to thank the staff who have been working with the After School Club since October. As we approach the end of the term I would like to inform you of the following;

**No After School Childcare Club on Tuesday, December 20th** - **parents are kindly asked to collect children from the Commodore Cinema at 3.30** (except the Nursery)

**No After School Childcare Club on Wednesday, December 21st** (last day of term)

The last day for the childcare club this year will be Monday, December 19th.

**Collection for the Aberystwyth Food Bank (Jubilee Storehouse)** - the school is keen to support the Aberystwyth Food Bank. Over the next few weeks we will be accepting any donations from the list below. We are aware that the cost of living has risen for everyone so please don't feel any pressure to contribute. There is a collection box inside the school's main entrance.

**Breakfast** - Weetabix, porridge in individual packs, muesli, coffee (small jars), tea bags, hot chocolate

**Lunch/dinner** - Tins of meat and veg in stew, chilli, curry, potatoes, peas, carrots, sweetcorn, tomatoes, French beans, tuna, salmon, sardines, mackerel, soup, small bags of pasta and rice, tins of fruit, custard, rice pudding, soya milk (cartons), biscuits, small bars of chocolate, sweets for children.

**Toiletries** - Shower gel, shampoo, deodorant, toothbrushes, toothpaste, nappies - sizes 4-7

**R C Williams, Headteacher, 28/11/2022**